DATGANIAD YSTADEGOL

Bwletin Chwarterol Cymwysterau Galwedigaethol ac Eraill: Chwarter 3 (Gorffennaf – Medi) 2020 i Gymru

26 Tachwedd 2020

Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn cyflwyno gwybodaeth i Gymru a gasglwyd gan Cymwysterau Cymru oddi wrth gyrff dyfarnu. Mae'n cynnwys data ar yr amrywiaeth a'r nifer o dystysgrifau cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill a roddwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020 (chwarter 3). Cyn chwarter 1 2019, cafodd data ar gyfer Cymru ei gasglu gan Ofqual.

Cysylltiadau cyflym

Cyflwyniad

Ystadegau

Rhestr termau

Nodiadau cefndir

Uchafbwyntiau

Ffigur 1: Cyfanswm y Tystysgrifau



Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu

7.6%

Dyfarnwyd **198,870** o dystysgrifau rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020. Mae hyn yn ostyngiad o **7.6%** o gymharu â'r un chwarter yn 2019, pan roddwyd **215,110**.

18.1%

Rhwng mis Hydref 2019 a mis Medi 2020, rhoddwyd **316,055** o dystysgrifau, sef gostyngiad o **18.1%** o gymharu â **386,065** rhwng mis Hydref 2018 a mis Medi 2019.

Cysylltwch â

Ystadegydd:	Hannah Williams	01633 373 292	ystadegau@cymwysteraucymru.org
Ymholiadau gan y cyfryngau:	Alan Morris	01633 373 216	cyfathrebu@cymwysteraucymru.org

CYFLWYNIAD

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru. O dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, ein prif nodau yw sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru.

Yn y datganiad hwn, rydym yn cyflwyno data ar yr amrywiaeth o gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill a thystysgrifau a roddwyd yn ystod trydydd chwarter 2020. Mae'r ffigurau yn cyfeirio at nifer y tystysgrifau, wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf, a ddyfarnwyd gan gyrff dyfarnu rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2020. Nid yw'r ystadegau hyn yn cynrychioli dysgwyr unigol, oherwydd gallai dysgwr fod wedi ennill nifer o dystysgrifau mewn unrhyw gyfnod penodol a gyflwynir yn y datganiad hwn.

Mae'r data yn y datganiad hwn yn ymwneud â chymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill a restrir ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW)[1] neu ar ein rhestr fewnol o gymwysterau rheoleiddiedig eraill. Nid yw'r data hwn yn cynnwys cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, Dyfarniadau Estynedig Uwch, cymwysterau Prif Ddysgu na chymwysterau Prosiect.

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data fesul chwarter, gan ddefnyddio chwarteri'r flwyddyn galendr. Mae Ch1 yn cynrychioli 1 Ionawr i 31 Mawrth; mae Ch2 yn cynrychioli 1 Ebrill i 30 Mehefin; mae Ch3 yn cynrychioli 1 Gorffennaf i 30 Medi; ac mae Ch4 yn cynrychioli 1 Hydref i 31 Rhagfyr.

O Ch4 2017, rydym wedi llunio adroddiadau am dystysgrifau a gyhoeddir ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill i Gymru, a gasglwyd yn wreiddiol oddi wrth gyrff dyfarnu gan Ofqual ar ein rhan. O Ch1 2019 ymlaen, mae Cymwysterau Cymru yn casglu ac yn cyhoeddi ystadegau swyddogol ar gyfer cymwysterau sy'n cael eu rheoleiddio gennym. Cyn Ch4 2017, Ofqual a fu'n casglu ac yn cyhoeddi data ar gyfer Cymru. Rydym wedi ceisio sicrhau, gymaint â phosibl, bod yr ystadegau hyn yn gyson â'r ystadegau cynharach hynny; ni wnaethpwyd newidiadau heblaw lle'r oedd yn amlwg y byddai gwneud hynny'n arwain at adrodd am ddata tystysgrifau cywirach, neu lle'r oedd angen y newidiadau oherwydd gwahaniaethau yn ein dull rheoleiddio. Ceir rhagor o fanylion yn yr adran Methodoleg yn y nodiadau cefndir.

[1]Cofrestr o gymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru yw QiW.

COVID-19

Ar 18 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, y byddai pob ysgol yng Nghymru'n cau erbyn 20 Mawrth 2020, oherwydd pandemig COVID-19. Ar 23 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Prif Weinidog Mark Drakeford gyfyngiadau pellach i arafu lledaeniad coronafeirws yng Nghymru. Cafodd y mesurau cychwynnol hyn eu llacio cyn dechrau chwarter 3, ond arhosodd nifer o'r cyfyngiadau mewn grym yn ystod rhywfaint neu'r cyfan o'r chwarter. O ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn, nid oedd llawer o golegau, canolfannau asesu a darparwyr hyfforddiant yn gallu gweithredu am rai misoedd. Bydd hyn yn debygol o effeithio ar nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill yn chwarter 3 2019.

Dyfernir llawer o'r cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill a ddyfernir yn chwarter 3 i ddysgwyr mewn ysgolion a cholegau fel rhan o gyfres arholiadau'r haf ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Oherwydd cau ysgolion a cholegau, cafodd llawer o'r cymwysterau eu hasesu a'u dyfarnu mewn ffordd a oedd yn wahanol i'r broses arferol. Ar gyfer rhai cymwysterau, roedd hyn yn golygu bod y canlyniadau cyffredinol yn sylweddol wahanol i'r canlyniadau mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r ffigurau yn y datganiad hwn yn cynrychioli nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ac nid ydynt yn cynnwys dysgwyr nad ydynt yn pasio'r cymhwyster. Mewn rhai achosion, gall newidiadau yn y cyfansymiau ar gyfer cymwysterau unigol fod o ganlyniad i newidiadau yn y gyfradd basio, yn hytrach na newidiadau mewn cofrestriadau.

Ystadegau

Cyfanswm tystysgrifau a thueddiadau hanesyddol

Tabl 1: Nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl chwarter ac yn ôl blwyddyn

Cyfnod amser	Blwyddyn	Ch1 Ion - Maw	Ch2 Ebr - Meh	Ch3 Gorff - Medi	Ch4 Hyd - Rhagfyr
Chwarterol	2015	94,070	164,620	295,930	59,650
	2016	86,085	115,010	251,035	59,055
	2017	54,425	82,710	226,505	57,595
	2018	53,765	85,415	216,310	58,795
	2019	50,550	61,610	215,110	51,765
	2020	45,300	20,120	**198,870**	Amh
Cyfanswm treigl 12 mis	2015	603,900	586,150	623,285	614,265
	2016	606,285	556,675	511,780	511,190
	2017	479,525	447,225	422,695	421,235
	2018	420,575	423,285	413,090	414,290
	2019	411,075	387,265	386,065	379,030
	2020	373,780	332,295	**316,055**	Amh

Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu

Cymhariaeth Chwarterol

Dyfarnwyd 198,870 o dystysgrifau rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020. Mae hyn yn ostyngiad o 7.6% o gymharu â'r un chwarter yn 2019, pan roddwyd 215,110 tystysgrif. Mae'r gostyngiad hwn yn debygol o fod yn un o effeithiau'r pandemig Covid-19. Ceir manylion y ffactorau allanol eraill sy'n debygol o fod wedi cyfrannu at y duedd gyffredinol am i lawr a welwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn nodiadau cefndir y datganiad hwn.

Cymhariaeth Flynyddol

Rhwng mis Hydref 2019 a mis Medi 2020, rhoddwyd 316,055 o dystysgrifau, sef gostyngiad o 18.1% o gymharu â 386,505 rhwng mis Hydref 2018 a mis Medi 2019.

Tystysgrifau yn ôl maes pwnc sector (MPS)

Tabl 2: Nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl maes pwnc sector

	Cymhariaeth Chwarterol		Cymhariaeth Flynyddol	
Maes Pwnc Sector	**2019 Ch3**	**2020 Ch3**	**Hyd 2018 - Medi 2019**	**Hyd 2019 - Medi 2020**
01 Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal	20,645	15,040	61,620	44,340
02 Gwyddoniaeth a Mathemateg	5,405	7,595	5,520	7,830
03 Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	2,435	1,870	4,410	3,910
04 Technolegau Peirianneg a Gweithgynhyrchu	10,035	6,700	20,725	13,800
05 Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig	10,060	7,635	21,920	16,205
06 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.	4,140	4,175	5,965	5,475
07 Manwerthu a Mentrau Masnachol	10,295	5,945	26,785	16,750
08 Hamdden, Teithio a Thwristiaeth	7,475	5,970	15,845	10,450
09 Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi	11,500	5,330	26,515	14,030
10 Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth	70	260	70	260
11 Gwyddorau Cymdeithasol	1,005	1,275	1,010	1,275
12 Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant	3,520	1,425	5,980	2,825
13 Addysg a Hyfforddiant	1,460	865	4,005	3,240
14 Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith	115,325	122,425	163,190	154,725
15 Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith	11,745	12,365	22,500	20,950
Cyfanswm	**215,110**	**198,870**	**386,065**	**316,055**

Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu

Y prif sectorau yn Ch3 2020 oedd 'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith' ac 'Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal', a'r rheini yn y drefn honno a oedd yn cyfrif am 61.6% a 7.6% o'r holl dystysgrifau. Y sector 'Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith' oedd y trydydd MPS â'r mwyaf o dystysgrifau yn Ch3 2020.

'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith' oedd yr MPS â'r mwyaf o dystysgrifau rhwng mis Hydref 2019 a mis Medi 2020. Er gwaethaf gostyngiad blynyddol o 5.2% mewn

tystysgrifau, roedd y sector hwn yn cyfrif am gyfran uwch o gyfanswm y tystysgrifau (49.0%) o gymharu â mis Hydref 2018 i fis Medi 2019 (42.3%). Y sector 'Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal' oedd yr ail fwyaf dros y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a mis Medi 2020, er gwaethaf gostyngiad o 28.0% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ffigur 2: Newid canrannol yn nifer y tystysgrifau a roddwyd yn ôl Maes Pwnc Sector (MPS), Ch3 2020 o gymharu â Ch3 2019



(*) Ataliwyd MPSau sydd â llai na 100 o dystysgrifau yn y naill chwarter neu'r llall.
Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu

Dengys Ffigur 2 mai'r sector 'Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant' a welodd y gostyngiad chwarterol mwyaf mewn tystysgrifau, gyda gostyngiad o 59.5% yn Ch3 2020 o gymharu â Ch3 2019. Y sector â'r cynnydd cyfrannol mwyaf oedd 'Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth' a welodd gynnydd chwarterol o 264.8%, neu tua 190 o dystysgrifau. Gwelwyd yr ail gynnydd mwyaf o 40.6% yn y sector 'Gwyddoniaeth a Mathemateg'.

Tystysgrifau yn ôl lefel

Tabl 3: Nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl lefel

	Cymhariaeth Chwarterol		Cymhariaeth Flynyddol	
Lefel	**2019 Ch3**	**2020 Ch3**	**Hyd 2018 - Medi 2019**	**Hyd 2019 - Medi 2020**
Lefel Mynediad	16,195	12,035	31,680	23,415
Lefel 1	22,740	16,710	53,465	34,740
Lefel 1/2	63,405	70,765	63,495	70,945
Lefel 2	53,535	46,330	126,620	96,085
Lefel 3	55,875	50,785	101,040	83,300
Lefel 4	1,570	1,325	4,460	3,805
Lefel 5	1,210	805	3,940	3,310
Lefel 6	530	95	805	290
Lefel 7	40	15	560	170
Lefel 8	0	0	*	0
Cyfanswm	**215,110**	**198,870**	**386,065**	**316,055**

Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu

Lefelau 1/2, 2 a 3 oedd y lefelau â'r mwyaf o dystysgrifau yn Ch3 2020, yn cyfrif am 84.4% o gyfanswm nifer y tystysgrifau ar gyfer y chwarter, o'i gymharu ag 80.3% yn Ch2 2019. Roedd yr un lefelau'n cyfrif am 79.2% o'r cyfanswm blynyddol.

Ac eithrio Lefel 1/2, gwelodd pob lefel ostyngiad chwarterol a blynyddol yn nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd. Mae'r cynnydd mewn tystysgrifau ar gyfer cymwysterau Lefel 1/2 yn cael ei lywio'n bennaf gan y sector 'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith', ond gellir gweld cynnydd mewn sectorau eraill hefyd.

Yn y cymwysterau Lefel 6 a Lefel 7 y gwelwyd y gostyngiadau chwarterol cyfrannol mwyaf o 82.3% a 61.9% yn y drefn honno. Y ddwy lefel hyn a welodd y gostyngiad mwyaf mewn tystysgrifau blynyddol hefyd, gan ostwng 64.1% a 69.7% yn y drefn honno. Roedd y gostyngiad blynyddol mwyaf mewn termau real mewn tystysgrifau ar Lefel 2, gyda gostyngiad o 30,535 o dystysgrifau.

Y cyrff dyfarnu sydd ar y brig o ran nifer y tystysgrifau a roddwyd

Tabl 4: Y 10 corff dyfarnu uchaf yn ôl nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd rhwng Hydref 2019 a Medi 2020

Corff Dyfarnu	Hyd 2018 - Medi 2019	Hyd 2019 - Medi 2020	Safle Hyd 2018 - Medi 2019	Safle Hyd 2019 - Medi 2020	Newid Safle
CBAC-WJEC	90,925	95,620	1	1	→ +0
City and Guilds of London Institute	80,730	60,800	2	2	→ +0
Pearson Education Ltd	38,860	43,000	3	3	→ +0
Agored Cymru	18,520	18,845	5	4	↑ +1
Highfield Qualifications	32,645	18,125	4	5	↓ -1
The London Institute of Banking & Finance	5,975	11,640	11	6	↑ +5
Qualsafe Awards	14,070	8,875	6	7	↓ -1
NCFE	6,325	7,200	10	8	↑ +2
Associated Board of the Royal Schools of Music	10,465	4,390	7	9	↓ -2
Trinity College London	8,410	4,385	9	10	↓ -1

Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu

Oherwydd yr amrywiaeth o gymwysterau a gynigir gan wahanol gyrff dyfarnu, mae'n debygol bod COVID-19 wedi effeithio'n wahanol ar gyrff dyfarnu unigol. Mae Tabl 4 yn dangos y deg corff dyfarnu sydd ar y brig o ran nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd dros y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a mis Medi 2020, o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol. Roedd y deg corff dyfarnu hyn yn cyfrif am 86.3% o'r holl dystysgrifau a ddyfarnwyd yn ystod y cyfnod hwn. Cadwodd CBAC ei le fel y corff dyfarnu â'r mwyaf o dystysgrifau yn ystod y 12 mis diwethaf, gan ddyfarnu dros 95,000 o dystysgrifau. Symudodd Highfield Qualifications i lawr safle oherwydd gostyngiad o 44.5% mewn tystysgrifau a llamodd Agored Cymru uwch ei ben wrth i'w dystysgrifau blynyddol barhau'n sefydlog.

Mae'r London Institute of Banking and Finance yn newydd-ddyfodiad yn y 10 corff dyfarnu uchaf o ran nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd, gan ddringo o safle rhif 11 i safle rhif 6 oherwydd cynnydd o 94.9% mewn tystysgrifau blynyddol. Sbardunwyd y cynnydd hwn gan gymwysterau yn y sectorau 'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith' a 'Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith'.

Mae'r Associated Board of the Royal Schools of Music a Trinity College London yn aros yn y 10 uchaf ond gwelodd y ddau ostyngiad blynyddol mawr mewn tystysgrifau o 58.0% a 47.9% yn y drefn honno.

Gadawodd Excellence, Achievement & Learning Limited restr y 10 uchaf o ganlyniad i ostyngiad blynyddol o 68.0% mewn tystysgrifau.

Y cymwysterau uchaf o ran tystysgrifau a roddwyd

Tabl 5: Y 10 cymhwyster uchaf o ran y nifer fwyaf o dystysgrifau a ddyfarnwyd yn ystod y chwarter hwn

Cymhwyster	Ch3 2019	Ch3 2020
CBAC Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen (Bagloriaeth Cymru)	27,125	28,245
CBAC Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	26,415	28,000
CBAC Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru)	11,660	11,770
CBAC Bagloriaeth Cymru Uwch	9,945	10,355
LIBF Tystysgrif Lefel 2 mewn Gallu Ariannol a Datblygu Gyrfaoedd	4,400	6,560
Pearson Edexcel Tystysgrif Lefel 2 mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol	2,765	3,865
CBAC Tystysgrif Lefel 2 mewn Mathemateg Ychwanegol	2,120	2,965
NCFE Tystysgrif Lefel 2 mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	610	2,745
LIBF Dyfarniad Lefel 1 Gwersi mewn Addysg Ariannol	155	2,405
LIBF Tystysgrif Lefel 1 / Lefel 2 Gwersi mewn Addysg Ariannol	420	2,130

Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu

Mae Tabl 5 yn dangos y deg cymhwyster uchaf â'r nifer uchaf o dystysgrifau yn y chwarter diweddaraf o gymharu â nifer y tystysgrifau ar gyfer yr un cymwysterau yn yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd y deg cymhwyster ar y brig yn cyfrif am 99,035 o dystysgrifau, sef 49.9% o'r holl dystysgrifau a ddyfarnwyd yn Ch3 2020. O'r deg cymhwyster uchaf hyn, o'i gymharu â'r un chwarter y llynedd, Dyfarniad Lefel 1 Gwersi Mewn Addysg Ariannol LIBF a welodd y cynnydd cyfrannol mwyaf (1,460.0%), ac yna Tystysgrif Lefel 1 / Lefel 2 Gwersi mewn Addysg Ariannol LIBF (408.1%). Mae'r codiadau cyfrannol mawr hyn yn cynrychioli cynnydd o 2,250 a 1,710 mewn tystysgrifau yn y drefn honno. Ni welodd unrhyw gymwysterau yn y 10 uchaf ostyngiad mewn tystysgrifau chwarterol.

Mae cymwysterau sy'n rhan o fframwaith Bagloriaeth Cymru yn ffurfio'r pedwar cymhwyster uchaf a ddyfarnwyd yn Ch3 2020, gyda Thystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Genedlaethol (Bagloriaeth Cymru) CBAC ar y brig gyda 28,245 o dystysgrifau.

Ceir rhagor o wybodaeth am Fagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau, a sut maent yn effeithio ar yr ystadegau hyn, yn adran dylanwadau allanol y nodiadau cefndir.

Tabl 6: Y 10 cymhwyster uchaf o ran y nifer fwyaf o dystysgrifau a ddyfarnwyd yn ystod y 12 mis diwethaf

Cymhwyster	Hyd 2018 - Medi 2019	Hyd 2019 - Medi 2020
CBAC Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen (Bagloriaeth Cymru)	27,125	28,245
CBAC Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	26,415	28,000
CBAC Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru)	11,660	11,770
CBAC Bagloriaeth Cymru Uwch	9,945	10,355
LIBF Tystysgrif Lefel 2 mewn Gallu Ariannol a Datblygu Gyrfaoedd	4,410	6,575
NCFE Tystysgrif Lefel 2 mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	1,415	4,395
Highfield Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF)	7,015	4,075
City & Guilds Lefel 2 Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol	5,160	3,980
Pearson Edexcel Tystysgrif Lefel 2 mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol	3,010	3,925
QA Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF)	5,305	3,780

Ffynhonnell: Data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru a gasglwyd gan gyrff dyfarnu

Mae Tabl 6 yn dangos y deg cymhwyster uchaf â'r nifer uchaf o dystysgrifau yn y 12 mis diweddaraf o gymharu â nifer y tystysgrifau ar gyfer yr un cymwysterau yn y 12 mis blaenorol. Roedd y deg cymhwyster yma'n cyfrif am 33.3% o'r holl dystysgrifau a ddyfarnwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a mis Medi 2020.

Mae cymwysterau sy'n rhan o fframwaith Bagloriaeth Cymru yn ffurfio'r pedwar cymhwyster uchaf a ddyfarnwyd dros y 12 mis diwethaf, gyda Thystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Genedlaethol (Bagloriaeth Cymru) CBAC ar y brig gyda 27,125 o dystysgrifau. 2017 oedd y flwyddyn gyntaf yr ardystiwyd y cymhwyster hwn, ynghyd â Bagloriaeth Cymru Genedlaethol/Sylfaen CBAC. Ceir rhagor o wybodaeth am Fagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau, a sut maent yn effeithio ar yr ystadegau hyn, yn adran dylanwadau allanol y nodiadau cefndir. Ar wahân i gymwysterau Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau, y cymwysterau a ddyfarnwyd fwyaf oedd Gwobr Lefel 3 Highfield mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF) a Lefel 2 City & Guilds mewn Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol.

Rhestr termau

Cymeradwyo cymwysterau/meini prawf cymeradwyo/cymwysterau cymeradwy

Pan gaiff cymhwyster ei restru ar y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol rydym yn cyhoeddi meini prawf ar ei gyfer. Cymeradwyo yw ein proses o gymeradwyo cymwysterau o'r fath yn erbyn y meini prawf cymeradwyo. Ni chaiff cymwysterau cymeradwy eu rheoleiddio gan reoleiddwyr cymwysterau eraill yng Nghymru ac maent fel arfer wedi'u llunio i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr yng Nghymru.

Corff dyfarnu

Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, yn nodi ac yn monitro asesiadau ac yn cyflwyno dyfarniadau i ddysgwyr, yn cydnabod y deilliannau dysgu yn ffurfiol (gwybodaeth, sgiliau a/neu gymwyseddau), yn dilyn gweithdrefn asesu a dilysu. Mewn rhannau eraill o'r DU, gelwir y rhain yn Sefydliadau Dyfarnu neu Fyrddau Arholi.

Cydnabyddiaeth corff dyfarnu

Er mwyn cynnig cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru, mae'n rhaid i gorff dyfarnu gael ei gydnabod gan Cymwysterau Cymru. Mae angen i gyrff dyfarnu gydymffurfio â'n meini prawf cydnabod a gwneud cais am gydnabyddiaeth.

Tystysgrif/Ardystio

Cydnabyddiaeth ffurfiol o gyflawniad myfyriwr. Bydd yn cynnwys unrhyw ddyfarniad nad yw wedi ei raddio'n U, yn absennol neu'n X (methu).

Dyddiad diwedd ardystio

Ni ellir dyfarnu cymhwyster i ddysgwyr, fel cymhwyster cymeradwy neu ddynodedig, ar ôl y dyddiad hwn.

Cymwysterau Dynodedig

Cymwysterau rheoleiddiedig a ddynodir gan Cymwysterau Cymru yn rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed, fel y'u diffiniwyd o dan adran 29 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Rydym yn ystyried nifer o faterion wrth benderfynu p'un a ddylai cymwysterau gael eu dynodi.

Cymhwyster Cyffredinol

Term sy'n disgrifio cymwysterau a gymerir fel arfer gan ddysgwyr yn yr ysgol neu'r coleg fel rhan o'u haddysg statudol neu eu haddysg bellach. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru a chymwysterau eraill sy'n rhannu rhai o'r nodweddion sy'n gyffredin i gymwysterau TGAU a Safon Uwch.

CBAC yw prif ddarparwr y cymwysterau hyn yng Nghymru, ond caiff rhai eu cynnig gan gyrff dyfarnu eraill hefyd.

Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol

Cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd sy'n ymwneud â gwaith sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o sectorau diwydiant a galwedigaethau, ac sy'n cael eu cyflwyno yn y gweithle.

Cofrestr Ofqual

Cofrestr Cymwysterau Rheoleiddiedig sy'n cynnwys manylion y cymwysterau a'r sefydliadau dyfarnu a reoleiddir gan Ofqual a CCEA Regulation.

Cymwysterau cyffredinol eraill

Cymwysterau sy'n asesu maes pwnc penodol, megis cerddoriaeth neu gelf, heblaw am gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Nid yw'r cymwysterau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith ond gallant gefnogi datblygiad gyrfa. Maent yn aml yn cael eu strwythuro yn erbyn arholiadau graddedig. Mae'r categori hefyd yn cynnwys cymwysterau sy'n cael eu categoreiddio'n dystysgrifau lefel 1/2.

Cymwysterau rheoleiddiedig eraill

Y cymwysterau hynny a ddyfernir yng Nghymru gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig, nad ydynt wedi'u dynodi na'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, ac nad yw cyrff dyfarnu wedi'u hildio na'u heithrio o gwmpas eu cydnabyddiaeth.

Math o Gymhwyster

Mae mathau o gymhwyster yn cyfeirio at grwpiau o gymwysterau sydd wedi cael eu datblygu i fodloni gofynion dylunio cyffredin. Efallai na fydd gofynion dylunio ar gyfer rhai mathau o gymhwyster yn weithredol mwyach, megis cymwysterau'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (a luniwyd i fodloni gofynion y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau).

Lefel y Cymhwyster

Y lefel cyrhaeddiad y mae cymhwyster yn ei chynrychioli fel y'i diffinnir gan Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru wedi'i gysoni â Fframwaith Cymwysterau Ewrop (FfCE). Mae hyn yn golygu y gellir cymharu lefel cymhwyster a enillir yng Nghymru â lefel yn yr FfCE. Mae hyn yn helpu pobl a sefydliadau i drosglwyddo cyflawniadau rhwng gwledydd a gweithio ledled yr Undeb Ewropeaidd.

Fframwaith Credydau a Chymwysterau

Fframwaith, sydd wedi dod i ben erbyn hyn, ar gyfer cymwysterau sy'n cynnwys unedau a chymwysterau mewn tri maint. Dyfarniadau (1-12 credyd), tystysgrifau (13-36 credyd) a diplomâu (37 credyd neu fwy).

Cymwysterau yng Nghymru (QiW)

Cronfa ddata sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n cynnig ffynhonnell o wybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig a ddyfernir yng Nghymru.

Chwarter

Mae'n cyfeirio at chwarteri calendr. Mae chwarter 1 (Ch1) yn cyfeirio at Ionawr – Mawrth, chwarter 2 (Ch2) at Ebrill – Mehefin, chwarter 3 (Ch3) at Orffennaf – Medi, a chwarter 4 (Ch4) at Hydref – Rhagfyr.

Cymwysterau rheoleiddiedig

Pob cymhwyster nad yw'n radd (p'un a yw'n gymhwyster cymeradwy, dynodedig neu fath arall o gymhwyster rheoleiddiedig) a gynigir i'w ddyfarnu gan gorff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru (oni bai fod corff dyfarnu wedi ildio ei gydnabyddiaeth mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw, neu wedi eithrio'r cymhwyster hwnnw o gwmpas ei gydnabyddiaeth drwy hysbysu Llywodraeth Cymru cyn 21 Medi 2015).

Maes Pwnc y Sector

Mae meysydd pwnc sector yn gyfres o gategorïau sy'n seiliedig ar sectorau diwydiant a phynciau academaidd a ddefnyddir i ddosbarthu cymwysterau.

Maes Pwnc Is-sector (categori Pwnc Sector gynt)

Meysydd is-sector yw'r ail haen o gategorïau sy'n seiliedig ar sectorau diwydiant a phynciau academaidd a ddefnyddir i ddosbarthu cymwysterau.

Ildio Cydnabyddiaeth

Gall cydnabyddiaeth ddod i ben pan fo corff dyfarnu yn penderfynu ildio cydnabyddiaeth yn rhannol neu'n llawn. Gall cyrff dyfarnu cydnabyddedig ildio rhan o'u cydnabyddiaeth drwy hysbysu Cymwysterau Cymru am gymwysterau, neu ddisgrifiadau o gymwysterau, yr hoffent eu cynnig fel cymwysterau nas rheoleiddir. Yn yr achosion hyn, ni all y cymwysterau nas rheoleiddir gynnwys logo Cymwysterau Cymru ar y tystysgrifau a roddir i ddysgwyr.

Cymhwyster Galwedigaethol

Cymwysterau a ddyfernir gan gorff dyfarnu ac y rhoddir tystysgrif ar eu cyfer, a astudir gan ddysgwyr 14 oed neu'n hŷn, ac sy'n asesu gwybodaeth, dealltwriaeth

a/neu sgiliau sy'n ymwneud yn benodol â byd gwaith. Mae'r cymwysterau hyn yn is-set i'r cymwysterau a gynhwysir yn yr ystadegau yn y cyhoeddiad hwn.

Cymwysterau sy'n ymwneud â galwedigaeth

Cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd sy'n ymwneud â gwaith, a luniwyd i roi'r sgiliau a'r wybodaeth i fyfyrwyr sydd eu hangen i wneud swydd. Maent yn gysylltiedig â chyflogaeth ond, yn wahanol i gymwysterau NVQ, nid ydynt o reidrwydd yn gofyn am brofiad nac asesiad yn y gweithle.

Nodiadau Cefndir

Statws

Ar 21 Tachwedd 2017, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 a enwodd Cymwysterau Cymru yn un o'r cyrff sydd o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007. Rydym wedi datblygu ein prosesau i sicrhau ein bod yn bodloni ein swyddogaethau fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol yn llawn, gan alluogi'r datganiad ystadegol hwn i gael ei gyhoeddi'n ffurfiol fel ystadegyn swyddogol.

Ffynhonnell Data

Mae'r cyrff dyfarnu wedi cyflwyno nifer y tystysgrifau a roddwyd ar gyfer pob cymhwyster galwedigaethol neu gymhwyster arall yn Chwarter 3 2020 (Gorffennaf - Medi 2020) i Cymwysterau Cymru. Dim ond i ddysgwyr a gafodd eu hasesu'n bennaf neu'n gyfan gwbl mewn lleoliadau yng Nghymru y mae'r tystysgrifau a roddwyd, ni waeth pa fath o ganolfan ydyw. Nid yw'n cynnwys y Dyfarniad Estynedig Uwch, cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch na chymwysterau Prosiect a chymwysterau Prif Ddysgu. Mae nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer y cymwysterau hyn ar gael ar wefan y Cyd-bwyllgor Cymwysterau.

Cyn chwarter 4 2017, bu Ofqual yn casglu ac yn adrodd ar ddata ar gyfer Cymru a oedd yn ymwneud â chymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill. Rhwng chwarter 4 2017 a chwarter 4 2018 (gan gynnwys y chwarteri hynny), Ofqual a oedd yn casglu data ar gyfer Cymru a oedd yn ymwneud â chymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill ac yn ei roi i Cymwysterau Cymru er mwyn galluogi'r adroddiad chwarterol hwn i gael ei lunio. O chwarter 1 2019 ymlaen, Cymwysterau Cymru sy'n casglu ac yn adrodd ar y data hyn. Ym mis Ebrill 2019, hysbysodd Ofqual gyrff dyfarnu o'i fwriad i gasglu data ar dystysgrifau chwarterol galwedigaethol ar gyfer

pob rhanbarth yn y DU, felly bydd yn parhau i gasglu data ar gymwysterau galwedigaethol ar gyfer Cymru at ei ddibenion mewnol ei hun.

Cynhaliodd Cymwysterau Cymru ac Ofqual gasgliadau data galwedigaethol ar yr un pryd ar gyfer chwarter 4 2018 a chwarter 1 2019. Y diben oedd darparu cyfnod pontio y gallem ei ddefnyddio i brofi ein systemau casglu data a sicrhau ansawdd y data a gasglwyd gennym drwy ei gymharu â'r data a gasglwyd gan Ofqual. Defnyddiwyd dadansoddiad o unrhyw wahaniaethau rhwng y ddau gasgliad i lywio gwaith ymgysylltu â chyrff dyfarnu i sicrhau a gwella ansawdd y data a gyhoeddir yn yr adroddiad hwn. Mae rhai cyrff dyfarnu wedi gwneud newidiadau i'r data galwedigaethol a gyflwynir ganddynt o ganlyniad i'r gwaith hwn. Nid yw'n sicr a fydd cyrff dyfarnu'n atgynhyrchu'r newidiadau hyn wrth gyflwyno eu data i Ofqual; felly, nid ydym mewn sefyllfa lle gallwn bennu i ba raddau y mae casglu'r data ein hunain wedi effeithio ar gyfanswm y tystysgrifau yr adroddir arnynt.

Disgwylir gwahaniaethau rhwng cyfanswm y tystysgrifau a gesglir gennym a'r hyn y mae Ofqual yn ei gasglu oddi wrth gyrff dyfarnu o ganlyniad i'r mân wahaniaethau o ran cwmpas y ddau gasgliad. Nid yw is-set fach arall o gymwysterau rheoleiddiedig eraill ar gyfer Cymru'n unig yn ymddangos ar gofrestr Ofqual nac ar QiW ac ni fyddent wedi'u cynnwys yng nghasgliadau data galwedigaethol hanesyddol Ofqual ar gyfer Cymru. O hyn ymlaen, ni fydd y data galwedigaethol a gesglir gennym ar gyfer Cymru'n cynnwys cymwysterau sydd wedi'u hildio o gwmpas ein cydnabyddiaeth ond a restrir o hyd ar gofrestr Ofqual. Llunnir ein templedi ar gyfer cymwysterau drwy ddefnyddio QiW a'r rhestr o gymwysterau rheoleiddiedig eraill, felly byddant yn cynnwys cwmpas cyfan y dirwedd cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau rheoleiddiedig eraill yng Nghymru.

Mae gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy neu ddynodedig a gynigir yng Nghymru ar gael yng nghronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW).

Methodoleg

Rydym wedi datblygu ein dull ein hunain o gynhyrchu ac adrodd ar yr ystadegau hyn, sydd ychydig wahanol i'r dull a ddefnyddir gan Ofqual wrth gynhyrchu ystadegau hanesyddol i Gymru. Mae hyn oherwydd bod ein dull rheoleiddio ni yn wahanol i ddull rheoleiddio Ofqual: Mae Ofqual yn gofyn i gyrff dyfarnu optio cymwysterau i mewn i'w rheoleiddio, ond rydym ni'n gofyn i gyrff dyfarnu optio allan unrhyw gymwysterau nad ydynt yn dymuno iddynt gael eu rheoleiddio. Efallai y bydd y data hanesyddol yn y datganiad hwn yn cynnwys rhai tystysgrifau ar gyfer cymwysterau nad ydym yn eu rheoleiddio, gan fod rhai o'r cymwysterau a restrir ar gofrestr Ofqual

yn debygol o fod wedi'u hildio o ran eu rheoleiddio yng Nghymru gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig. Hefyd, efallai fod nifer fach o gymwysterau ar gyfer Cymru'n unig nad oes cyfrif amdanynt yn y data hanesyddol gan nad ydynt wedi bod yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus (e.e. fe'u rhestrir ar QiW).

Mae nodweddion cymwysterau, megis maes sector pwnc a lefel, a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gofrestr Ofqual a chronfa ddata QiW. Ar gyfer chwarteri hyd at Ch4 2018, mae templed casglu data Ofqual yn galluogi cyrff dyfarnu i gyflwyno data ar gyfer yr un cymhwyster yn erbyn rhif QiW (dynodydd unigryw ar gyfer cymwysterau ar gronfa ddata QiW), QAN (dynodydd unigryw ar gyfer cymwysterau ar gofrestr Ofqual) neu gyfran yn erbyn y ddau i Gymru. Lle mae cyrff dyfarnu wedi cyflwyno data i Ofqual gan ddefnyddio rhif QiW, cafodd nodweddion y cymhwyster eu tynnu o gronfa ddata QiW, a lle mae cyrff dyfarnu wedi cyflwyno data gan ddefnyddio QAN, cafodd nodweddion y cymhwyster eu tynnu o gofrestr Ofqual.

Bydd fformat addasedig ein templedi casglu data'n caniatáu i ddata gael ei gyflwyno unwaith yn unig fesul cymhwyster o Ch1 2019 ymlaen. Bydd hyn yn dileu'r risg y bydd cyrff dyfarnu'n cyfrif tystysgrifau ddwywaith drwy gyflwyno'r un dystysgrif yn anghywir yn erbyn y rhif QiW a QAN. Gan ein bod yn casglu data ar gyfer cymwysterau a restrir ar QiW neu ein rhestr reoleiddiedig arall yn unig, bydd yr holl nodweddion cymwysterau o Ch1 2019 yn deillio o'n cronfa ddata. Dim ond ar gyfer data hanesyddol ar gymwysterau nas rhestrir ar ein cronfa ddata y defnyddir nodweddion o gofrestr Ofqual.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data hanesyddol am y pum mlynedd diwethaf. Lle mae cymwysterau yn dal yn fyw ar y cofrestrau, bydd y data hanesyddol a gyhoeddir yn yr adroddiad hwn yn dangos y nodweddion hyn fel y maent ar y diwrnod y cafodd yr adroddiad ei redeg ar gyfer y chwarter diweddaraf. Os nad yw'r cymhwyster yn fyw mwyach, caiff y nodweddion diweddaraf a gofnodwyd ar gyfer y cymhwyster hwnnw ar y cofrestrau eu nodi. Mae hyn yn unol â methodoleg Ofqual.

Mathau a Lefelau Cymwysterau

Pennir lefel i bob cymhwyster. Disgrifir y lefelau yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Mae Tabl 7 yn dangos y berthynas rhwng lefelau a mathau o gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill ar gofrestr Ofqual a QiW. Mae mathau o gymwysterau nas dyfarnwyd yng Nghymru yn ystod y 12 mis hyd at ddiwedd Ch3 2020 wedi'u lliwio'n las yn y tabl.

Tabl 7: Mathau o gymwysterau a lefelau cyfatebol

Math o gymhwyster	Lefelau presennol
Sgiliau Sylfaenol	Lefel Mynediad, Lefelau 1 a 2
AHGP[2]	Lefelau 1 i 6
Asesiad Pwynt Diwedd	Lefelau 2 i 7
Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill	Lefel Mynediad, Lefelau 1, 2 a 3
Sgiliau Hanfodol Cymru	Lefel Mynediad, Lefelau 1, 2 a 3
Cymhwyster mathemateg annibynnol	Lefelau 1, 2 a 3
Sgiliau gweithredol	Lefel Mynediad, Lefelau 1 a 2
Lefel Uwch	Lefelau 4 i 8
AHGC[4]	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 5

Math o gymhwyster	Lefelau presennol
Sgiliau allweddol	Lefelau 1 i 4
NVQ	Lefelau 1 i 5
Cymhwyster cyffredinol arall	Lefelau 1, 1/2, 2 a 3
Cymhwyster sgiliau bywyd arall	Lefel Mynediad, Lefelau 1, 2 a 3
Cymhwyster galwedigaethol arall	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 4
Cymhwyster galwedigaethol	Lefelau 1 i 4
FfCCh[3]	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 8
Cymhwyster sy'n gysylltiedig â galwedigaethau	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 8
Bagloriaeth Cymru[5]	Lefelau 1, 1/2, 2 a 3

[2] Ystyr AHGP yw 'Addysg a hyfforddiant galwedigaethol parhaus'. Fe'i defnyddir i ddosbarthu cymwysterau cymhwysedd galwedigaethol ar gyfer y sawl sydd dros 16 oed (gweler Fframwaith Credydau a Chymwysterau).

[3] Ar 1 Hydref 2015, tynnodd Ofqual ofynion y Fframwaith Credydau a Chymwysterau (FfCCh) yn ôl. Fodd bynnag, am resymau gweinyddol, hyd at haf 2016, bu modd i sefydliadau dyfarnu barhau i ddefnyddio'r math FfCCh ar system Ofqual ar gyfer cymwysterau newydd pan nad oedd unrhyw fath arall yn briodol. Yn sgil penderfyniad Ofqual, tynnwyd gofynion y FfCCh yn ôl gennym ni hefyd o 1 Rhagfyr 2015. Ar ôl i QiW gael ei chyflwyno ar 1 Ebrill 2016, ni chafodd cymwysterau newydd eu dosbarthu yn rhai FfCCh mwyach.

[4] Ystyr AHGC yw 'Addysg a hyfforddiant galwedigaethol cychwynnol'. Fe'i defnyddir i ddosbarthu cymwysterau galwedigaethol rhagarweiniol sy'n addas ar gyfer pob oed a gallu (gweler Fframwaith Credydau a Chymwysterau).

[5] Mae'r math 'Bagloriaeth Cymru' yn cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru (ar bob lefel) a Bagloriaeth Cymru ar bob lefel (mae'r olaf yn gofyn i ddysgwyr ennill cymwysterau eraill ar lefelau penodedig yn ogystal â'r Dystysgrif Her Sgiliau berthnasol).

Dylanwadau allanol

Bagloriaeth Cymru

Yn dilyn yr 'Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru', a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011, cyflwynwyd Bagloriaeth Cymru newydd i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2015. Pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru Fagloriaeth Cymru, cyhoeddodd bolisi o fabwysiadu'n gyffredinol. Golyga hyn fod Bagloriaeth Cymru ar gael i bob ysgol a Choleg AB i'w chynnig, yn hytrach na dim ond y rhai hynny a gymeradwywyd i'w chynnig, sef y sefyllfa gyda Bagloriaeth Cymru ar ei ffurf flaenorol. Pennodd y polisi dargedau hefyd i ysgolion a Cholegau AB gynyddu'n raddol gyfran y myfyrwyr sy'n sefyll Bagloriaeth Cymru, gyda'r nod o sicrhau y bydd y mwyafrif llethol o ddysgwyr yng Nghymru yn ei sefyll fel rhan o'u rhaglen astudio erbyn 2019/20. Mae Bagloriaeth Cymru ar ei ffurf ddiwygiedig yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau. Cynhwyswyd nifer y tystysgrifau a roddwyd ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yn yr ystadegau yn y cyhoeddiad hwn.

Ar gyfer Bagloriaeth Cymru ar ei ffurf flaenorol, gallai cymwysterau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol gyfrif tuag at y dyfarniad (ochr yn ochr â chymwysterau eraill). Gallai dysgwyr fod wedi ennill tystysgrifau mewn nifer o gymwysterau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol i gyfrif tuag at y dyfarniad. Nid yw'r cymwysterau presennol ar gyfer Sgiliau Allweddol na Sgiliau Hanfodol yn cyfrif tuag at ddyfarnu Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd yng Nghyfnod Allweddol 4, na Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru ychwaith. Fodd bynnag, gall cymwysterau newydd Sgiliau Hanfodol Cymru gyfrif tuag at Ddiploma Sylfaen ÔI-16 a Diploma Cenedlaethol Bagloriaeth Cymru. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar gymariaethau dros amser yn y cyhoeddiad hwn.

Mesurau Perfformiad

Gall newidiadau i fesurau perfformiad hefyd fod yn effeithio ar nifer y tystysgrifau a roddir ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill dros amser, yn enwedig ar lefelau 1 i 3. Er enghraifft, o 2017, cafodd cymwysterau galwedigaethol eu capio i roi uchafswm o 40% o'r pwyntiau ar gyfer mesurau trothwy ysgolion (Cyfnod Allweddol 4) Llywodraeth Cymru. Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru newid arall i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 mewn perthynas â gwyddoniaeth. Ar ôl hynny, dim ond cymwysterau Gwyddoniaeth TGAU oedd yn cyfrif. Yn flaenorol, caniatawyd i gymwysterau gwyddoniaeth galwedigaethol gyfrif[6].

[6] Ceir rhagor o wybodaeth am newidiadau i fesurau perfformiad yng Nghymru ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cwmpas Daearyddol

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar nifer y tystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill ar gyfer chwarter 3 (Gorffennaf – Medi 2019) ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys cymwysterau galwedigaethol na chymwysterau eraill sy'n cael eu sefyll y tu allan i Gymru, na thystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, Dyfarniad Estynedig Uwch, cymwysterau Prosiect na chymwysterau Prif Ddysgu.

Cyfyngiadau'r data

Er ein bod yn bwriadu casglu data am dystysgrifau yn ymwneud â dysgwyr a aseswyd yn llwyr neu'n bennaf mewn canolfan yng Nghymru, mae'n bosib y caiff dysgwyr o'r tu allan i Gymru eu cynnwys yn y data y mae rhai cyrff dyfarnu'n ei gyflwyno. Un o'r sefyllfaoedd lle gallai hyn godi yw dyfarnu tystysgrif i ddysgwr o bell (h.y. nid oes unrhyw ganolfan). Rydym wedi rhoi cyfarwyddyd i gyrff dyfarnu ddefnyddio cyfeiriad y dysgwr lle nad oes canolfan, er na chesglir y wybodaeth hon oddi wrth ddysgwyr bob amser.

Mae Ofqual wedi casglu data hanesyddol i Gymru ar ein rhan. Yn ei nodiadau cefndir mae'n disgrifio cyfyngiadau'r data:

"Cesglir data ar y pwynt cynharaf sydd ar gael, sef diwrnod cyntaf y cyfnod adrodd nesaf. Mae hyn yn lleihau'r amser rhwng y gweithgarwch ac adrodd ar y gweithgarwch. Mae prif ffynhonnell y gwall posibl yn yr wybodaeth a ddarperir gan gyrff dyfarnu. Ni all Ofqual warantu bod nifer y tystysgrifau a gyflwynir yn gywir a gall fod tuedd systematig pan anfonir y wybodaeth, er y disgwylir i sefydliadau dyfarnu ddarparu'r data cywir. Mae Ofqual yn cymharu'r data dros amser ac yn gwneud gwiriadau ar gyfer materion systematig. Yna anfonir data cryno yn ôl i sefydliadau dyfarnu gael eu gwirio a'u cadarnhau. Mae'r ffigurau a adroddir yn y datganiad hwn yn adlewyrchu'r tystysgrifau a gyhoeddwyd gan sefydliadau dyfarnu ar adeg casglu'r data."

Ar 4 Mai 2018, tynnodd Ofqual gydnabyddiaeth The Awarding Body for Vocational Achievement (AVA) Ltd (sy'n masnachu fel BAA) yn ôl. Gweler y dudalen hon am ragor o fanylion. Fel rhan o'r ymchwiliad a gynhaliwyd cyn i'r penderfyniad gael ei wneud, canfuwyd bod AVA wedi bod yn darparu data anghywir ar y tystysgrifau a roddwyd i Ofqual. Nid yw'n ymarferol casglu data wedi'i gywiro gan AVA ond gwyddys mai cywiriadau bach ydynt. Roedd AVA wedi rhoi nifer fach iawn o dystysgrifau (tua 15 yn y pum mlynedd diwethaf yn ôl y data presennol), felly nid yw'r

gwallau hyn yn cael effaith sylweddol ar dueddiadau cyffredinol yn y data. Felly, rydym wedi cynnwys data presennol AVA fel y mae yn y datganiad ystadegol hwn.

Cymariaethau

Cafodd y data hwn ei gasglu yn yr un ffordd ag y mae Ofqual wedi casglu data mewn chwarteri blaenorol. Mae Ofqual yn rhagboblogi ei ffurflenni casglu data â chymwysterau o'i gofrestr ac o'n cronfa ddata ni, QiW; rydym wedi dilyn strategaeth debyg, gan boblogi templedi drwy ddefnyddio ein cronfa ddata QiW a rhestr arall o gymwysterau rheoleiddiedig sy'n cael ei chadw'n gyfredol gan gyrff dyfarnu. Ar gyfer y cyhoeddiad hwn rydym wedi dileu cymwysterau gan gyrff dyfarnu nad ydym yn eu cydnabod o ddata hanesyddol. Rydym wedi gwneud hyn am y pum mlynedd diwethaf a gynhwysir yn y cyhoeddiad hwn a'u tablau data cyfatebol. Lle mae corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ar ddechrau chwarter (e.e. 1 Ionawr) mae'r data ar gyfer y corff dyfarnu hwnnw wedi cael ei ddileu o'r chwarter hwnnw ymlaen. Lle mae corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ran o'r ffordd drwy chwarter, mae'r data ar gyfer y chwarter hwnnw wedi'i gynnwys os ydyw ar gael, ac mae'r corff dyfarnu wedi cael ei ddileu o'r data o'r chwarter dilynol ymlaen. Mewn nifer fach o achosion, mae corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ac yna wedi cael ei gydnabod eto yn ddiweddarach. Yn yr achosion hyn, dim ond lle nad oedd y corff dyfarnu wedi'i gydnabod ar gyfer y chwarter cyfan y mae'r data wedi cael ei hepgor.

Felly, mae'n bosibl na fydd chwarteri hanesyddol a chyfansymiau blwyddyn yn cyfateb i'r hyn a gyhoeddir gan Ofqual. Mae'r tabl isod yn dangos effaith hyn ar gyfansymiau ar gyfer pob chwarter:

Quarter	2012.4	2013.1	2013.2	2013.3	2013.4	2014.1	2014.2	2014.3	2014.4	2015.1
Number of certificates removed	90	45	110	230	*	55	110	75	105	0
Percentage of total certificates	0.15%	0.05%	0.06%	0.07%	0.00%	0.05%	0.06%	0.03%	0.16%	0.00%

Quarter	2015.2	2015.3	2015.4	2016.1	2016.2	2016.3	2016.4	2017.1	2017.2	2017.3
Number of certificates removed	0	20	280	265	130	215	215	245	225	180
Percentage of total certificates	0.00%	0.01%	0.47%	0.31%	0.11%	0.09%	0.36%	0.45%	0.27%	0.08%

Yn achos dwy bartneriaeth rhwng cyrff dyfarnu – CBAC-EDEXCEL a Pearson EDI – gwyddom na chafodd eu cydnabyddiaeth ei throsglwyddo i Cymwysterau Cymru ar adeg ei sefydlu ym mis Awst 2015. Ni ddyfarnodd CBAC-EDEXCEL unrhyw dystysgrifau ar ôl Ch3 2013, a gwelodd Pearson EDI leihad mawr yn nifer y tystysgrifau o Ch2 2015 ymlaen. O ystyried y tueddiadau a ddisgrifir, mae data ar gyfer y partneriaethau hyn wedi cael ei gynnwys hyd at a chan gynnwys Ch3 2015

(h.y. hyd at adeg sefydlu Cymwysterau Cymru) ac nid ydyw wedi cael ei gynnwys ar ôl yr adeg hon. Mae'r tabl isod yn dangos y data ar gyfer y cyrff dyfarnu hyn – mae'r ffigurau sydd wedi'u tywyllu wedi cael eu dileu o'r data ar gyfer y datganiad hwn:

Quarter	2012.4	2013.1	2013.2	2013.3	2013.4	2014.1	2014.2	2014.3	2014.4	2015.1
Pearson EDI Certificates	1210	1415	1835	1050	1385	1480	1745	1905	1205	1085
WJEC-EDEXCEL Certificates	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Quarter	2015.2	2015.3	2015.4	2016.1	2016.2	2016.3	2016.4	2017.1	2017.2	2017.3
Pearson EDI Certificates	345	420	205	140	45	30	10	0	0	0
WJEC-EDEXCEL Certificates	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Sicrhau ansawdd

Gan ein bod ni, Cymwysterau Cymru, bellach yn casglu'r data yma, ni sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd y data. Mae manylion y prosesau rydym yn eu dilyn i sicrhau ansawdd y data hwn ar gael yn ein dogfen Datganiad Interim am Ansawdd Ystadegol a Sicrhau Ansawdd Ffynonellau Data Gweinyddol. Bu'r data hanesyddol yn destun gweithdrefnau sicrhau ansawdd Ofqual, a gynhelir fel y'u hesbonnir yn y Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer Cyhoeddiadau Ystadegol a gyhoeddwyd gan Ofqual er mwyn sicrhau cywirdeb y data a'i herio neu ei amau, lle bo angen. Ceir rhagor o wybodaeth hefyd yn nodiadau cefndir datganiad chwarterol Ofqual am gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill.

Gellir gohirio cyhoeddi os nad yw'r ystadegau yn cael eu hystyried yn addas at y diben.

Diwygiadau

Unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi, nid yw data ar nifer y tystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol fel arfer yn cael ei ddiwygio, er y gall datganiadau dilynol gael eu diwygio i gynnwys data hwyr neu gywiro gwall.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru, caiff ffigurau sy'n llai na 5 ond yn fwy na 0 eu disodli gan *. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r data yn datgelu ymgeisydd unigol. Talgrynnir pob ffigur ar gyfer nifer y tystysgrifau a roddwyd. Yn y sylwadau a'r tablau, maent wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae'r holl ganrannau o fewn y sylwadau yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol.

Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly mae'n bosibl na fyddant yn symio i'r cyfanswm.

Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, Ofqual, cyrff dyfarnu a Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o bwy yw ein defnyddwyr dros amser. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i lywio dealltwriaeth o batrymau ardystio, ac i helpu i fonitro cymwysterau galwedigaethol.

Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae Ofqual yn cyhoeddi ystadegau ar gymwysterau galwedigaethol i Loegr.

Ymchwil ac Ystadegau wedi'u cyhoeddi gan y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA).

Ystadegau wedi'u cyhoeddi gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA).

Ystadegau wedi'u cyhoeddi gan Eurostat.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae rhestr termau ar gael ar dudalen 11 i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Ceir gwybodaeth am gyhoeddiadau yn y dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cronfa ddata QiW yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

Y diweddariad nesaf

Chwefror 2021 (dros dro).

Adborth gan ddefnyddwyr

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir ei ddarparu drwy e-bost i ystadegau@cymwysteraucymru.org.

© (2020) Rhoddir caniatâd i'w atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.